**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

**EOC(3)-03-08(p2): 28 Chwefror 2008**

**Ymchwiliad i'r materion sy'n effeithio ar weithwyr mudol yng Nghymru**
**Cyflwyniad gan Gyngor Sir y Fflint**
**Gweithwyr Mudol a'u Teuluoedd (Cyngor Sir y Fflint)**

**Pwrpas**

Nod y papur hwn yw adnabod rhai o'r pethau sy'n herio Sir y Fflint ar hyn o bryd a'r gwaith sy'n cael ei wneud i ymateb i anghenion gweithwyr mudol o Ddwyrain Ewrop a'u teuluoedd. Mae'r papur hwn yn ymateb i ymchwiliad Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithwyr mudol a'u teuluoedd.

## Cefndir

**1. Proffil o weithwyr mudol yn Sir y Fflint**

Er 2004 bu cynnydd yn nifer y gweithwyr mudol o wledydd yr A8 sy'n dod i fyw a/neu weithio yn Sir y Fflint. Mae nifer sylweddol o'r A gweithwyr mudol hyn o Wlad Pwyl ac maent yn byw ac yn gweithio'n bennaf yn ardaloedd y Fflint a Glannau Dyfrdwy. Nid yw'r union niferoedd yn hysbys.

Bu'r cynnydd yn nifer gweithwyr mudol yr A8 yn symud i Sir y Fflint yn gyflym iawn a chafodd effaith ar rai gwasanaethau ac ar y gymuned. Nid oedd darparwyr gwasanaethau'n barod ar gyfer y newid yn nemograffeg y gymuned; fodd bynnag, maent bellach yn datblygu arfer da. Mae tensiynau yn y gymuned, er hynny, wrth i sïon a mythau am y gweithwyr mudol gael eu lledaenu. Bu tystiolaeth am hyn yn y galwadau pryderus gan aelodau'r cyhoedd i swyddogion y cyngor am hawliau gweithwyr mudol a chynnydd yn yr adroddiadau am graffiti hiliol yn targedu gweithwyr mudol. Gall fod tensiynau gwrthgyferbyniol rhwng ateb anghenion y gymuned sefydledig ac ymateb i anghenion gwahanol y newydd-ddyfodiaid.

## 2. Gweithio gyda Phartneriaid

Er mwyn adnabod yr effaith ar wasanaethau ar draws Sir y Fflint, cynhaliwyd digwyddiad gennym ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn dwyn y teitl "Profiad Sir y Fflint". Pwrpas y digwyddiad oedd rhoi cyfle i ddarparwyr gwasanaethau ac ymarferwyr rannu a dysgu oddi wrth ei gilydd am eu profiadau wrth eu gwaith. Canolbwyntiodd adborth o'r digwyddiad hwn ar dri phrif bryder:

yr angen am ddata cywir;

ymhlygiadau o ran adnoddau; a

rhwystrau ar gyfathrebu.

## 3. Addysg

Mae nifer y plant ysgol o wledydd A8 wedi tyfu'n gyson er 2004. Mae'r ffigurau'n dangos yn 2008 fod 64% o ddisgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) yn dod o Ddwyrain Ewrop, o gymharu â 27% yn 2005. Mae hyn wedi rhoi cryn straen ar y Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol ac mae wedi effeithio ar ei allu, yn enwedig o safbwynt derbyn disgyblion newydd annisgwyl ar ganol y tymor. Nid oes gan y gwasanaeth SIY unrhyw wybodaeth am gefndir y plant o ran anawsterau dysgu neu'r cymorth emosiynol neu ymddygiadol gofynnol syn iddynt gyrraedd yr ysgol. Ceir rhai disgyblion o wledydd yr A8 sydd ag anawsterau dysgu ac anghenion meddygol sylweddol. Gall prinder cofnodion a gwybodaeth flaenorol am ddisgyblion arwain at oedi cyn derbyn cefnogaeth briodol.

Mae sawl menter yn digwydd i gynnwys plant mewn ysgolion ac i roi'r sgiliau a'r wybodaeth i athrawon allu rheoli integreiddio. Mae'r gwasanaeth SIY:-

yn cynnal cynhadledd ym mis Ebrill 2008 ar gyfer yr ysgolion cynradd yn Sir y Fflint a effeithiwyd dan y teitl "Strategaethau Allweddol ar gyfer Cwricwlwm Gwella Iaith i Blant sy'n Dysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol."

yn datblygu pecyn i bob ysgol i'w helpu i groesawu disgyblion SIY newydd i'r ysgolion.

wedi cyhoeddi gwybodaeth mewn Pwyleg i rieni am y gwasanaeth SIY.

wedi paratoi taflenni i ysgolion, mewn cydweithrediad â'r Cydlynydd Personol Cymdeithasol a Iechyd), wedi paratoi taflenni i ysgolion ar sut i gysylltu ag ysgolion yng Ngwlad Pwyl. Nod hyn yw galluogi plant yng Ngwlad Pwyl i gynnal cysylltiadau â'u gwlad enedigol ac annog disgyblion yn yr ysgol yma i feithrin dealltwriaeth o ddiwylliant a chefndir y disgyblion newydd.

yn cefnogi dau athro SIY sydd wedi gwneud cais, trwy'r Cyngor Prydeinig., i ymweld ag ysgol yng Ngwlad Pwyl am wythnos.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r gwasanaeth SIY yn rhan o'r gwasanaeth Cynhwysiant ac felly mae perthynas broffesiynol gref ganddo â'r gwasanaeth Anghenion Arbennig. Mae hon yn cael ei datblygu er mwyn datblygu ymateb cydlynol i unrhyw anghenion ychwanegol a nodir.

Mae ysgolion wedi defnyddio cyfieithwyr hefyd mewn nosweithiau rhieni er mwyn sicrhau bod rhieni'n cael gwybod am gynnydd eu

plant ac yn gallu gofyn unrhyw gwestiynau neu fynegi unrhyw bryderon. Mae un ysgol uwchradd wedi cyflogi Cynorthwyydd Dysgu sy'n siarad Pwyleg.

Darparodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru hyfforddiant mewn cydraddoldeb i ddisgyblion blwyddyn 7 yn 50% o ysgolion uwchradd Sir y Fflint.

### 3. Chwarae

Er mwyn sicrhau bod y cynlluniau chwarae blynyddol yn yr haf yn cynnwys plant o'r cymunedau newydd, cyfieithodd y gwasanaeth chwarae ei holl wybodaeth i wahanol ieithoedd. Hyrwyddwyd hon trwy ei dosbarthu i ysgolion, yn enwedig rhai lle'r oedd niferoedd mawr o ddisgyblion SIY. Canlyniad hyn oedd cynnydd yn nifer y plant i weithwyr mudol a fynychai gynlluniau chwarae'r haf. Roedd yr adborth yn gadarnhaol gan rieni a phlant fel ei gilydd. Trwy gynnwys plant o deuluoedd gweithwyr mudol hybwyd integreiddio a chyd-ddealltwriaeth rhwng gwahanol ddiwylliannau.

### 4. Tai

Mae gweithwyr mudol yn tueddu i ddefnyddio'r farchnad breifat ar rent am eu llety ac nid ydynt yn dibynnu ar dai'r awdurdod lleol. Ceir adroddiadau am orlenwi wrth i denantiaid isosod i weithwyr mudol eraill sydd ag angen llety. Efallai nad ydynt ond yn cofrestru dau neu dri o bobl yn y cyfeiriad, sy'n golygu nad oes cofnodion am weithwyr mudol eraill a allai effeithio arnynt os byddant yn dymuno gwneud cais am dai cyngor yn ddiweddarach. Ceir camsyniad yn y gymuned bod gweithwyr mudol yn cael dyrannu tai cyngor iddynt ac mae hyn wedi creu tensiynau.

Mae gwasanaeth Tai'r Cyngor wedi paratoi gwybodaeth am opsiynau tai mewn gwahanol ieithoedd ac mae'r rhain i'w gweld yn nerbynfeydd y cyngor ac yn y Prosiect Drws Agored, gwasanaeth galw-i-mewn ar gyfer gweithwyr mudol. Fodd bynnag, dengys yr adborth gan weithwyr mudol i'r hysbysrwydd nad oes diddordeb ganddynt mewn rhentu llety gan y cyngor. Mae rhywle rhwng 10 a 15 o bobl wedi cofrestru i gael tai gan yr awdurdod lleol ac nid oes neb o blith y gweithwyr mudol wedi gwneud cais am eu bod yn ddigartref.

Gwyddys nad yw gweithwyr mudol bob amser yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â thai; er enghraifft, deall eu hawl i fudd-daliadau a chytundebau tenantiaeth, sy'n arwain at isosod a gorlenwi. Codwyd y materion hyn gan weithwyr mudol yn y Prosiect Drws Agored. Er mwyn sicrhau tai, mae staff digartrefedd, dyraniadau ac ystadau'n rhoi'r wybodaeth gywir i weithwyr mudol am eu hopsiynau tai maent wedi derbyn hyfforddiant gan y Sefydliad Tai Siartredig. Mae'r gwasanaeth Tai'n bwriadu ymweld yn rheolaidd â'r Prosiect Drws Agored i ddarparu cyngor a gwybodaeth i weithwyr mudol. Mae bellach yn orchymyn yn y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y bydd taflenni'n cael eu paratoi mewn gwahanol ieithoedd am "Hawliau a Chyfrifoldebau a Thai".

### 5. Prosiect Drws Agored

Ariennir y Prosiect Drws Agored, a gynhelir mewn lleoliad yn y gymuned, gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint. Fe'i sefydlwyd gan Swyddog Amrywioldeb Heddlu Gogledd Cymru a gynorthwyir gan ddau gyfieithydd gwirfoddol, Swyddog Cydlyniad Cymunedol Cyngor Sir y Fflint a Swyddog Hawliau Lles. Mae cynrychiolydd o'r cynllun Cymorth i Ddioddefwyr yn mynychu hefyd. Gwasanaeth galw-i-mewn wythnosol i weithwyr mudol a'u teuluoedd yw'r Prosiect Drws Agored, sy'n cynnig mynediad i wasanaethau prif ffrwd. Mae'n cynnig gwybodaeth hefyd am amryw byd o bynciau megis deddfwriaeth tai a gyrru. Mae cyfrifiaduron a mynediad am ddim i'r rhyngrwyd ar gael i'w defnyddio gan weithwyr mudol.

Mae'r Prosiect Drws Agored yn derbyn rhyw 20 o ymwelwyr ym mhob sesiwn ar gyfartaledd. Mae ymwelwyr yn dod o'r gymuned Bwylaidd yn bennaf ac maent yn tueddu i alw heibio am help i lenwi ffurflenni, cyfieithu llythyrau neu i gael cyngor ar gyflogaeth neu faterion cyfreithiol. Darparwyd dosbarthiadau Saesneg ar y safle hefyd a ariennir gan Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol. Mae gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu'r Cyngor yn cael cyhoeddusrwydd hefyd yn y Prosiect Drws Agored.

Er mwyn sicrhau bod y prosiect yn gynaliadwy, mae gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth â Barnardos, y Canolfannau Cyngor Ar Bopeth, Cyngor Sir y Fflint, Eglwys Gymunedol Afon Dyfrdwy, Siop Cyngor ar Fudd-daliadau'r Rhyl a'r gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr i edrych ar ddyfodol y prosiect.

### 6. Cydlyniad Cymunedol

Mae'r cynnydd yn nifer y gweithwyr mudol wedi codi camsyniadau a diffyg ymddiriedaeth yn y gymuned leol, er enghraifft, eu bod yn mynd â swyddi a thai gan bobl leol ac yn rhoi straen ar wasanaethau megis meddygon a deintyddion. Bu rhai ymosodiadau hiliol ar weithwyr mudol hefyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys un ymosodiad arbennig o ffyrnig ar weithiwr mudol o Wlad Pwyl. Ceir tystiolaeth anecdotaidd, gan Heddlu Gogledd Cymru, nad oes sôn swyddogol am rai ymosodiadau ar weithwyr mudol. Bu cynnydd hefyd yn yr adroddiadau am graffiti hiliol; rhwng Ionawr a Rhagfyr 2007 58 o adroddiadau am graffiti hilio; er Ionawr 2008 a heddiw cafwyd adroddiadau am 23. Mae'n bosibl bod y cynnydd ymddangosiadol mewn adroddiadau'n rhannol oherwydd adrodd a chofnodi mwy effeithiol gan Gynllun Wardeiniaid Cymdogaethau Cyngor Sir y Fflint.

Er mwyn chwalu'r "mythau a'r stereoteipiau" am hawliau gweithwyr mudol i fudd-daliadau, tai a chyflogaeth, cyhoeddwyd taflen chwalu mythau gan Gyngor Sir y Fflint. Ariannwyd hon gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint ac fe'i dosbarthwyd yn y cymunedau lleol. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi sefydlu ei system ei hun i gofnodi digwyddiadau atgasedd. Rhennir y canlyniadau gyda Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint ac ychwanegir data o ffynonellau eraill i adnabod ardaloedd lle mae tensiynau'n bod. Golyga hyn y gall y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ymateb yn fuan i fân densiynau i atal pethau rhag mynd yn fwy difrifol.

Comisiynwyd Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint i gynnal arolwg o weithwyr mudol. Pwrpas yr ymchwil oedd ategu'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol ac adnabod pethau y gellid eu gwneud i atal trosedd a gymhellir gan atgasedd hiliol. Bydd yr adroddiad hwn yn cyfrannu at yr asesiad strategol Diogelwch Cymunedol.

### Crynodeb ac Argymhellion

1. Mae sawl menter yn digwydd i alluogi gweithwyr mudol a'u teuluoedd i dderbyn gwybodaeth a gwasanaethau ac i'w hannog i integreiddio i'r gymuned leol. Mae'r Cyngor yn datblygu dull gweithredu mewn partneriaeth er mwyn sicrhau cydlyniad ac i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd effeithiol.

2. Ceir pryderon am ddiffyg data cywir a thueddiadau yn y dyfodol. Mae diffyg data am nifer y gweithwyr mudol a'u bwriadau hirdymor yn ei gwneud yn anodd i wasanaethau ragweld a chynllunio i ateb eu hanghenion. Heb ddata cywir, mae darparwyr gwasanaethau'n ddibynnol ar dystiolaeth anecdotaidd, a all arwain at bolisïau a gwasanaethau amhriodol yn seiliedig ar stereoteipiau a gwybodaeth wyrgam.

3.Bydd ffigurau cywir a newidiadau a ddisgwylir i'r boblogaeth oherwydd ehangu'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd o help i bob awdurdod cyhoeddus allu ymbaratoi ac ymateb mewn modd mwy effeithiol.

4. Bydd mynediad ar unwaith i arian wedi'i ddiogelu (yn yr un flwyddyn) ac adnoddau ychwanegol i ymateb i gynnydd cyflym yn y boblogaeth yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu gwasanaethau prif ffrwd ac i ddatblygu mentrau i ateb anghenion cymunedau tra'n parhau i fuddsoddi ac ateb anghenion cymunedau presennol a sefydledig.